Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

www.llyw.cymru

## Canllawiau Rhan 1 i Awdurdodau Tân ac Achub

Medi 2015



© Hawlfraint y Goron 2015
WG26344 ISBN digidol 978 1 4734 4675 5

**Crynodeb o'r Cynnwys**


| | | Tud |
|---|---|---|
| **Pennod 1** | **Integreiddio'r Strategaeth a'r Trefniadau Cyflwyno** | **4** |
| | Cysylltu'n Ymarferol | **4** |
| | Cynllunio Strategol | **5** |
| | Cynllunio ac Adrodd ar Welliannau | **5** |
| **Pennod 2** | **Egwyddorion Sylfaenol, Cwmpas a Statws** | **7** |
| | Egwyddorion Sylfaenol | **7** |
| | Cwmpas a Statws | **8** |
| | Gwelliannau yng nghyd-destun Awdurdodau Tân ac Achub | **9** |
| | Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru | **9** |
| | Defnyddio prosesau cynllunio cyfredol Awdurdodau Tân ac Achub i ysgogi gwelliant | **10** |
| | Rolau a Chyfrifoldebau | **11** |
| | Rôl yr Awdurdod Tân ac Achub | **11** |
| | Rôl y Prif Gynghorydd Tân ac Achub | **12** |
| | Rôl Swyddfa Archwilio Cymru | **12** |
| | Rôl Gweinidogion Cymru | **13** |
| **Pennod 3** | **Gwelliant** | **14** |
| | Diffinio Gwelliant | **14** |
| | Y Ddyletswydd Gyffredinol i Wella | **14** |
| | Amcanion Gwella | **16** |
| | Nodi Amcanion Gwella | **17** |
| | Llunio Amcanion Gwella | **18** |
| | Ymgynghori ar Welliannau | **19** |
| | Cofnodi ac Adrodd ar Gynnydd | **20** |
| **Pennod 4** | **Rheoli Risg mewn Cymunedau** | **22** |
| | Cyd-destun Strategol | **22** |
| | Lleihau Risg | **22** |
| **Pennod 5** | **Gwybodaeth am Welliannau** | **24** |
| | Dangosyddion Perfformiad Statudol | **25** |
| | Dangosyddion Perfformiad y Sector | **26** |
| | Dangosyddion Lleol | **26** |
| | Gwybodaeth Arall am Welliannau | **27** |

| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 6** | **Gweithio gyda'n Gilydd (Cydweithio)** | **28** |
| | Cydweithio er mwyn Gwella a Phwerau a dyletswyddau Awdurdodau Tân ac Achub | **28** |
| | Ymgynghori ac Adrodd | **30** |
| **Pennod 7** | **Rhoi Cyfrif am Welliannau** | **31** |
| | Cynlluniau a Bwriadau | **31** |
| | Adrodd ar Berfformiad yn y Gorffennol | **31** |
| | Cyhoeddi | **32** |
| | Ymgysylltu'n Ehangach â'r Cyhoedd | **33** |
| | Hyblygrwydd | **34** |
| **Pennod 8** | **Asesu, Rheoleiddio ac Arolygu** | **35** |
| | Amlinelliad o waith Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol | **35** |
| | Asesu Gwelliannau | **37** |
| | Asesiad Corfforaethol gan Edrych i'r Dyfodol | **37** |
| | Asesiad o Berfformiad Ol-weithredol | **38** |
| | Arolygiadau arbennig | **39** |
| | Adroddiadau Gwella Blynyddol Cyhoeddedig | **39** |
| | Cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio | **40** |

## Pennod 1 – Integreiddio'r Strategaeth a'r Trefniadau Cyflwyno

1.1 Mae'r bennod hon yn nodi sut y dylai Awdurdodau Tân ac Achub ('ATAau') anelu at gyflawni dau amcan annibynnol ond ategol:

- Gwella gwasanaethau yn y byrdymor;
- Cefnogi lles cymunedau yn y tymor hwy.

1.2 Nid yw gwelliannau byrdymor na gwaith cynllunio tymor hwy yn gweithio'n effeithiol yn annibynnol ar ei gilydd. Gall gwelliannau nad ydynt yn seiliedig ar weledigaeth strategol tymor hwy, ac nad ydynt yn anelu at wireddu'r weledigaeth honno, ddod yn ymarfer lle yr anelir at gyflawni targedau perfformiad dim ond er mwyn eu cyflawni. Gall fod diffyg ymdeimlad digonol o'r hyn sydd bwysicaf i bobl a chymunedau lleol, a pha heriau a chyfleoedd y gallai cymunedau eu hwynebu yn y dyfodol.

1.3 I'r gwrthwyneb, gall gwaith cynllunio tymor hwy nad yw'n arwain at newidiadau buddiol tymor byrrach i ardaloedd lleol droi'n broses o lunio nodau a dyheadau annelwig na chânt byth eu gwireddu'n llawn.

### Cysylltu'n Ymarferol

1.4 Mae tri darn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n rhyngweithio yn hyn o beth:-

- Yn gyntaf, y dyletswyddau sydd ar ATAau i gynllunio gwelliannau, fel y'u nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y "Mesur") yr ymdrinnir â hwy yn fanwl drwy'r ddogfen hon i gyd;
- Yn ail, y blaenoriaethau i ATAau fel y'u nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (y "Fframwaith Cenedlaethol") (a wnaed o dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004) ("Deddf 2004")). Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn pennu blaenoriaethau i ATAau y mae'n rhaid iddynt eu hystyried wrth ddatblygu eu cynlluniau tymor canolig i hirdymor, fel sy'n ofynnol gan adran 4(3)(c) o'r Mesur;
- Yn drydydd, y dyletswyddau a osodir ar ATAau gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015"). Mae Deddf 2015 yn rhagnodi saith nod llesiant. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus datganoledig (gan gynnwys ATAau) bennu amcanion er mwyn cyflawni'r nodau hynny, ac anelu at gyflawni'r amcanion hynny yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ATAau weithredu mewn modd sy'n sicrhau bod anghenion cenedlaethau'r presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

1.5 Bydd dyletswyddau hefyd ar ATAau o dan Ddeddf 2015 fel aelodau statudol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyfrannu at asesiadau llesiant, ac at lunio cynlluniau llesiant lleol a'u rhoi ar waith ar gyfer ardal pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

1.6 Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar wahân ar y dyletswyddau yn Neddf 2015 a sut y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â hwy. Nid yw'r Canllawiau hyn yn achub y blaen ar unrhyw elfen o hynny. Fodd bynnag, nodir y gydberthynas rhwng y tair set o ddyletswyddau/gofynion yn gryno isod:-

**Cynllunio Strategol**

- Dylai ATAau adlewyrchu'r blaenoriaethau yn y Fframwaith Cenedlaethol yn eu cynlluniau tymor canolig i hirdymor;

- Bydd Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau gyhoeddi amcanion llesiant a datganiad yn esbonio sut y mae'r amcanion hyn yn ategu'r broses o gyflawni'r nodau llesiant. Ni ddisgwylir i ATAau gyflwyno systemau newydd ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau hyn. Yn hytrach, dylai ATAau geisio integreiddio'r dyletswyddau yn eu systemau cynllunio strategol a'u cynlluniau adrodd ar berfformiad;

- Fel y cyfryw, dylai ATAau ddefnyddio eu cynlluniau strategol i ymgynghori ar eu hamcanion llesiant a'u cyhoeddi;

- Bydd cydberthynas glir rhwng blaenoriaethau'r Fframwaith Cenedlaethol a'r nodau llesiant a nodir yn Neddf 2015.

**Cynllunio ac Adrodd ar Welliannau**

- Dylai trefniadau ar gyfer cynlluniau gwella blynyddol fod yn seiliedig ar ddatblygu amcanion gwella sy'n ategu gweledigaeth strategol tymor hwy ATAau. Mae hyn yn golygu y dylid adlewyrchu blaenoriaethau'r Fframwaith Cenedlaethol ac amcanion llesiant ATAau o fewn amcanion gwella ATAau;

- Bydd Deddf 2015 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd yn dangos pa gynnydd y maent wedi'i wneud yn erbyn eu hamcanion llesiant. Dylai ATAau ddefnyddio eu hasesiadau blynyddol o berfformiad i lunio adroddiadau blynyddol ar gynnydd tuag at eu hamcanion llesiant a'r amcanion gwella hynny sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r Fframwaith Cenedlaethol;

- Mae gofynion ar wahân ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiadau bob dwy flynedd ar y graddau y mae ATAau wedi gweithredu'n unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Bydd asesiadau blynyddol ATAau o berfformiad yn rhan o'r dystiolaeth a ddefnyddir wrth lunio'r adroddiadau hyn;

- Er mwyn bod mor atebol â phosibl i'r cyhoedd, bydd angen i ATAau sicrhau bod cymunedau yn deall yr hyn y maent yn gyfrifol am ei gyflawni, a beth yw eu cynlluniau a'u blaenoriaethau ar gyfer yr holl ofynion a nodir uchod. Dylai ATAau roi'r cyfle i ddinasyddion gyfrannu at y cynlluniau hyn mewn ffordd hyddysg. Mae hyn yn golygu bod angen i ddinasyddion ddeall yr amcanion y mae eu ATA yn hanelu at eu cyflawni, a sut y dangosir llwyddiant yn erbyn yr amcanion hyn.

1.7 Bydd cysylltu'r amcanion o fewn cynlluniau llesiant lleol â chynlluniau strategol a chynlluniau gwella cyffredinol ATAau o bosibl yn broses gymhleth. Mae ATAau yn cwmpasu ardaloedd mawr ac amrywiol ac mae'n bosibl iawn y bydd gan wahanol gymunedau wahanol flaenoriaethau ac amcanion. Bydd angen i ATAau reoli'r posibilrwydd y ceir blaenoriaethau croes o'r fath yn effeithiol. Mae'n debygol y bydd rhai materion cyffredin yn arwain at flaenoriaethau cyson ar draws yr ATA cyfan y dylid eu hadlewyrchu'n amlwg o fewn amcanion llesiant ATAau unigol fel y'u nodir yn eu cynlluniau strategol. Bydd y cysylltiad â chynlluniau gwella yn amlwg o dan yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, gall fod adegau lle y bydd amcanion cynlluniau llesiant lleol wedi'u cyfyngu i ardal Awdurdod Lleol benodol, ac y bydd angen eu hadlewyrchu mewn cynlluniau busnes ATA ar gyfer ardal ddaearyddol benodol (e.e. cynlluniau cyflenwi ar gyfer unedau neu orsafoedd tân ac achub penodol) yn hytrach nag fel amcan strategol ehangach o fewn Cynlluniau Strategol ATAau ar gyfer eu hardaloedd cyfan.

# Pennod 2 – Egwyddorion Sylfaenol, Cwmpas a Statws

## Egwyddorion Sylfaenol

2.1 Mae'r Mesur yn seiliedig ar rai egwyddorion sylfaenol:

- Mewn gwirionedd, mae "gwelliant" yn golygu mwy na dim ond buddiannau meintiol o ran allbwn neu effeithlonrwydd gwasanaethau neu o ran effeithiolrwydd mewnol ATAau. Yn hytrach, dylai olygu unrhyw beth sy'n gwella ansawdd bywyd i ddinasyddion a chymunedau lleol;

- Yn unol â hynny, dylai ATAau benderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gwelliant yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion lleol a'u gallu i fynd i'r afael â hwy;

- Dylai'r ddealltwriaeth honno lywio'r weledigaeth tymor hwy a rennir o ran canlyniadau llesiant, a chael ei lywio ganddi;

- Dylai dulliau cydweithio, rheoli perfformiad, atebolrwydd, rheoleiddio ac arolygu a chymorth ac ymyriadau, gynnal yr egwyddorion uchod a bod yn gyson â hwy.

2.2 Mae'r Mesur yn:

- Defnyddio diffiniad eang o welliant. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i gysyniadau traddodiadol o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ond yn hytrach, mae'n cynnwys y canlynol:
    - gwneud cynnydd tuag at amcanion strategol ATA;
    - gwella ansawdd gwasanaethau;
    - gwella argaeledd gwasanaethau;
    - gwella tegwch drwy leihau anghydraddoldeb o ran cael gafael ar wasanaethau neu gael budd o wasanaethau neu wella llesiant cymdeithasol dinasyddion a chymunedau;
    - arfer swyddogaethau mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy;
    - gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a swyddogaethau;
    - arloesed a newid sy'n cyfrannu at unrhyw un o'r amcanion uchod.

- Caniatáu i ATAau bennu eu hamcanion gwella eu hunain o dan unrhyw rai o'r elfennau gwella uchod (ond nid o reidrwydd bob un ohonynt).

- Creu pŵer cyffredinol i ATAau gydweithio er mwyn sicrhau gwelliant;

- Symleiddio'r dull rheoleiddio ac arolygu, gan ei gwneud yn ofynnol i gyrff rheoliadol gydgysylltu eu gwaith;

- Creu pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru gynnig cymorth gwirfoddol i ATAau, a'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwnnw o ran ATA sy'n wynebu anawsterau, cyn y gallant ystyried defnyddio eu pwerau ymyrryd (ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol).

**Cwmpas a Statws**

2.3 Mae'r Canllawiau hyn wedi'u hanelu at ATAau yng Nghymru ac fe'u cyhoeddir o dan ran 1 o'r Mesur. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau gwella yng Nghymru i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau (gweler adran 2), ac i bennu amcanion gwella (adran 3). At y dibenion hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau gwella yng Nghymru ymgynghori â chynrychiolwyr pobl mewn categorïau penodedig (adran 5). Diffinnir ATAau yng Nghymru fel awdurdodau gwella yng Nghymru o dan adran 1(c) o'r Mesur.

2.4 Mae'r Mesur yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi safonau perfformiad a Dangosyddion Perfformiad (DP) drwy orchymyn ac mae'n ofynnol i awdurdodau gwella yng Nghymru wneud trefniadau i arfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safonau perfformiad o'r fath (adran 8). Mae dyletswydd ar awdurdodau gwella yng Nghymru i gasglu a defnyddio gwybodaeth am berfformiad ac i wneud cynlluniau ar gyfer gwella (adrannau 13-15).

2.5 Mae'r Mesur yn darparu pwerau i awdurdodau gwella yng Nghymru gydweithio ag eraill wrth arfer rhai o'u swyddogaethau o dan y Mesur (adrannau 9, 11 a 12).

2.6 Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliad er mwyn penderfynu p'un a yw awdurdod gwella yng Nghymru wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau perthnasol (adran 17). Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd y pwerau i gyflwyno adroddiadau a chynnal arolygiadau arbennig o awdurdodau gwella yng Nghymru.

2.7 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i helpu awdurdodau gwella yng Nghymru a'r pwerau i'w cyfarwyddo os byddant yn methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan y Mesur, neu os byddant yn debygol o fethu â gwneud hynny.

2.8 Mae'r Canllawiau hyn yn disodli canllawiau o dan y Mesur a gyhoeddwyd yn flaenorol ym mis Mai 2010. Fe'u cyhoeddir o dan adrannau 6, 12A, 14(3) a 15(8) a (9) o'r Mesur.

2.9 Rhaid i ATAau yng Nghymru ystyried y Canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 1 o'r Mesur. Gan nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau i gyhoeddi canllawiau i ATAau ar bwerau arolygu'r Archwilydd Cyffredinol, dim ond er gwybodaeth y darperir Pennod 8; nid oes unrhyw rwymedigaeth ar yr Archwilydd Cyffredinol i ystyried Pennod 8.

2.10 Yn unol â gofynion adran 48 o'r Mesur, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â phob ATA yng Nghymru, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y Canllawiau hyn.

**Gwelliannau yng Nghyd-destun Awdurdodau Tân ac Achub**

2.11 Mae'r Canllawiau hyn yn adlewyrchu telerau'r Mesur yn y cyd-destun penodol y mae ATAau yn gweithredu oddi mewn iddo. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau, gwasanaethau a phrosesau cynllunio presennol penodol ATAau. Yn arbennig, mae'r canllawiau yn cydnabod gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ATAau fel y'u nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol ac yn esbonio sut y dylai gwaith cynllunio gwelliant gyfrannu at y blaenoriaethau hynny.

**Y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub**

2.12 Caiff y Fframwaith Cenedlaethol ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol ag adran 21 o Ddeddf 2004 sy'n datgan y canlynol:

- Rhaid i fframwaith nodi blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer ATAau mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau;

- Gall fframwaith gynnwys canllawiau i ATAau mewn perthynas â chyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau;

- Gall fframwaith gynnwys unrhyw fater sy'n ymwneud ag ATAau neu eu swyddogaethau fel y bo'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

2.13 Wrth gyflawni eu swyddogaethau, rhaid i ATAau ystyried y Fframwaith Cenedlaethol yn ogystal â'u rhwymedigaethau gwella fel y'u nodir yn y Mesur. Dylai ATAau:

- Gynnwys y blaenoriaethau a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol yn eu cynlluniau strategol;

- Sicrhau y caiff y blaenoriaethau yn y Fframwaith Cenedlaethol eu hystyried wrth ddatblygu amcanion gwella.

2.14 Mae adran 25 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad o leiaf bob dwy flynedd sy'n nodi i ba raddau y mae ATAau wedi cydymffurfio â'r Fframwaith Cenedlaethol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae angen tystiolaeth gynhwysfawr ar Weinidogion Cymru am allu, adnoddau a threfniadau cyflwyno ATAau, gan yr ATAau eu hunain ac o ffynonellau perthnasol eraill. Felly dylai'r holl brosesau cynllunio, adrodd ac asesu a ddefnyddir i gyflawni'r naill ofyniad deddfwriaethol neu'r llall, neu'r ddau (sef y gofynion o dan y Mesur ac o dan Ddeddf 2004), ategu ei gilydd, gan ei gwneud yn bosibl i wybodaeth a thystiolaeth o un broses fwydo i mewn i'r llall; a dylent ganiatáu i Weinidogion Cymru lunio barn awdurdodol o ran i ba raddau y mae ATA wedi cydymffurfio.

2.15 Mae dyletswyddau craidd ATAau fel y'u nodir yn Neddf 2004 fel a ganlyn:-

- Hyrwyddo diogelwch tân yn eu hardal;
- Diffodd tanau a diogelu bywydau ac eiddo;
- Achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffordd a'u diogelu rhag niwed difrifol pan geir damwain o'r fath;
- Ymateb i fathau penodol o argyfwng penodedig ac eithrio tanau a damweiniau traffig ar y ffordd fel y'i rhagnodir drwy Orchymyn.

2.16 Mae Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau:-

- Cael gwared ar lygryddion cemegol, biolegol neu ymbelydrol oddi ar bobl mewn argyfwng;
- Achub pobl o adeiladau sydd wedi dymchwel, trenau, tramiau neu awyrennau.

**Defnyddio prosesau cynllunio ATAau i ysgogi gwelliant**

2.17 Mae ATAau eisoes yn chwarae rhan allweddol o fewn strwythurau a rhwydweithiau partneriaeth sy'n bodoli eisoes, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Fforymau Lleol Cymru Gydnerth. Dylai'r trefniadau presennol hyn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ffurfio sylfaen cyfraniad ATAau yn y dyfodol i waith cynllunio aml-asiantaeth i ddiwallu anghenion cymunedau lleol.

2.18 O dan adran 5 yn Rhan 1 o'r Mesur, mae'n ofynnol i ATAau ymgynghori ar y trefniadau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau gwelliant parhaus a'r amcanion gwella a'r safonau y maent yn bwriadu pennu ar eu cyfer hwy eu hunain. Mae adran 15(6) o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i bob ATA gyhoeddi cynllun gwella sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni'r dyletswyddau hyn yn ystod pob blwyddyn ariannol. Mae Pennod 4 o'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r systemau ar gyfer nodi gwelliannau yn seiliedig ar y risg i gymunedau.

2.19 Mae Rhan 1 o'r Mesur yn canolbwyntio'n fras ar wella yn hytrach na rhoi ffocws cul ar risg. Fodd bynnag, mae lleihau perygl a difrifoldeb tanau yn nod cwbl ddilys o fewn telerau'r Mesur. Mae nodau o'r fath, wrth reswm, yn hanfodol er mwyn sicrhau gwelliant yng nghyd-destun tanau. Cyn 2011, roedd yn ofynnol i ATAau lunio Cynllun Lleihau Risg strategol yn cynnwys amcanion tymor canolig i hirdymor yr ATA, wedi'i ategu gan Gynlluniau Gweithredu Lleihau Risg blynyddol, a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Pennwyd yr amserlen ar gyfer cyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol er mwyn gallu ymgynghori ar y ddau gynllun a'u cyhoeddi ar yr un pryd, ac fel un ddogfen os

mai dyna fyddai dymuniad yr ATA. Roedd hyn ar y sail bod amcanion lleihau risg yn rhoi sail glir dros amcanion cynllunio gwelliant. Yn 2011, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i uno’r ddwy broses yn llawn, gan ei gwneud yn bosibl i ofynion cynllunio gwelliant o dan y Mesur a systemau cynlluniau lleihau risg o dan y Fframwaith Cenedlaethol gael eu huno, gan olygu y gellid ymgymryd ag un broses cynllunio, ymgynghori a chyhoeddi bob blwyddyn. Nodir y trefniant diwygiedig hwn yn y Fframwaith Cenedlaethol.

2.20 Mae’r Canllawiau hyn yn disgrifio sut y dylai ATAau gyflawni eu dyletswyddau i ymgynghori ar gynllun gwella a’i gyhoeddi o dan Ran 1 o’r Mesur. Dylai ATAau gyhoeddi eu cynlluniau cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae’r cynllun yn cyfeirio ati. Y bwriad polisi yw y bydd ATAau yn cyhoeddi eu cynlluniau rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth ym mhob blwyddyn.

### Rolau a Chyfrifoldebau

2.21 Nodir cyfrifoldebau’r partïon allweddol sy’n chwarae rhan yn y gwaith o roi trefniadau cynllunio gwelliant ar waith ar gyfer ATAau isod. Nodir y rhan fwyaf o’u cyfrifoldebau yn fanylach ym mhenodau dilynol y Canllawiau hyn.

### Rôl ATAau

- Cynnal gwaith cynllunio i leihau risg sy’n ystyried ymateb brys, a diogelwch busnesau a’r gymuned rhag tân ar sail barhaus (Pennod 4);

- Cynnal hunanasesiad a fydd yn cynnwys:-

    - adolygiad beirniadol o berfformiad yr ATA, yn erbyn ei berfformiad ei hun dros amser ac o’i gymharu ag eraill yng Nghymru a thu hwnt gan ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys dangosyddion perfformiad a data meincnodi (gweler Pennod 5 am ragor o fanylion);

    - adolygiad beirniadol o berfformiad yn erbyn amcanion gwella a bennwyd yn flaenorol, i ba raddau y mae’r ATA wedi ystyried y blaenoriaethau, yr amcanion a’r canllawiau a nodwyd yn y Fframwaith Cenedlaethol, ac adolygiad o berfformiad ar waith a wnaed ar y cyd rhwng yr ATA a phartneriaid eraill;

    - ystyried canlyniadau adroddiadau asesiadau gan gymheiriaid, archwiliadau ac asesiadau gan SAC a’r Prif Gynghorydd Tân ac Achub, ac unrhyw adroddiad/cyngor ar berfformiad a roddir gan Weinidogion Cymru neu’r Prif Gynghorydd Tân ac Achub;

- Defnyddio gwybodaeth o’r hunanasesiad ynghyd ag asesiadau o’r risg i’r gymuned a pholisi ac arfer da a ddaw i’r amlwg mewn mannau eraill, i ddatblygu amcanion gwella ac ymgynghori ar yr amcanion hyn;

- Cyhoeddi Cynllun Gwella Blynyddol yn nodi’r amcanion a sut mae’r ATA yn bwriadu eu rhoi ar waith (gweler Pennod 7);

- Cyhoeddi gwybodaeth am asesiadau o berfformiad blaenorol bob blwyddyn (gweler Pennod 7);

- Cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau asesiadau gan gymheiriaid o fewn asesiadau blynyddol o berfformiad a sicrhau bod y cyswllt rhwng argymhellion o asesiadau gan gyfoedion ac amcanion gwella yn glir o fewn Cynlluniau Gwella Blynyddol.

**Rôl y Prif Gynghorydd Tân ac Achub**

2.22 Mae gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub bwerau o dan adran 28 o Ddeddf 2004 i gael gwybodaeth am y ffordd y mae ATAau yn cyflawni eu swyddogaethau a materion technegol yn ymwneud â'r swyddogaethau hynny.

2.23 Bydd y Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn:-

- Rhoi cyngor a chymorth i ATAau ar bob mater sy'n gysylltiedig â'u rôl, eu swyddogaeth a'r ffordd y darperir eu gwasanaethau;

- Cynnal adolygiadau ac asesiadau thematig o faterion gweithredol yr ATA;

- Cyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru ar y canlynol:-

    - adolygiadau thematig a gynhaliwyd a'r argymhellion yn deillio ohonynt;
    - gwelliannau sy'n cael eu rhoi ar waith gan ATAau o ganlyniad i asesiadau blaenorol a chyfredol gan gymheiriaid ac adolygiadau thematig, a rhoi barn o ran y graddau y mae'r rhain ac amcanion gwella eraill yn gysylltiedig â swyddogaethau gweithredol/darparu gwasanaethau'r ATAau.

- Trafod cynlluniau asesu â SAC er mwyn sicrhau bod cynigion ar gyfer pob archwiliad ac asesiad yn ategu ei gilydd, a rhannu gwybodaeth, adroddiadau a data perthnasol;

- Rhoi barn ar adroddiadau drafft SAC a chyfrannu atynt er mwyn sicrhau y caiff canfyddiadau adroddiad a safbwyntiau cyffredinol y Prif Gynghorydd Tân ac Achub eu hadlewyrchu. Yn yr un modd, ymgynghori â SAC lle y bo'n briodol ar ganfyddiadau drafft unrhyw asesiadau a gynhelir gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub;

- Rhoi mewnbwn i adroddiadau SAC drwy weithredu fel adnodd arbenigol mewn astudiaethau/asesiadau a gynhelir.

**Rôl Swyddfa Archwilio Cymru**

2.24 O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, a'r Mesur, mae gan SAC swyddogaethau (a ddirprwyir gan yr Archwilydd Cyffredinol) i wneud y canlynol:-

- Archwilio datganiadau cyfrifyddu ATA;

- Adolygu trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni swyddogaethau ATA ac wrth ddarparu gwasanaethau ATA;

- Asesu trefniadau ATA i sicrhau gwelliant parhaus sy'n cynnwys:-

    - Asesiad o berfformiad yr ATA dros amser, gan ystyried y canlynol:-
        - asesiad cyhoeddedig yr ATA ei hun o'i berfformiad;
        - gwybodaeth o asesiadau eraill a gynhaliwyd o'r ATA gan gynnwys unrhyw adroddiadau ar asesiadau gan gymheiriaid sy'n ymwneud â gweithgareddau gweithredol a gweithgareddau eraill;
        - canfyddiadau gwaith arall a wnaed gan SAC;
        - canfyddiadau gwaith a wnaed gan reoleiddwyr eraill;
        - canfyddiadau gwaith a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub a'i safbwyntiau mwy cyffredinol;
    - Archwiliad o gydymffurfiaeth yr ATA ag adran 15 o'r Mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gyhoeddi adroddiad ar ei berfformiad;

- Cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio gyda'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub;

- Cynnal arolygiadau arbennig ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru lle y bo'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y gall ATA fethu â chydymffurfio â gofynion y Mesur;

- Cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn;

- Cyfrannu at drafodaethau am berfformiad ATAau a'u gofynion o ran cymorth drwy Grŵp Llywio Cynllunio Gwelliant yr Awdurdod Tân ac Achub.

**Rôl Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru**

- Pennu blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer ATAau yng Nghymru, a chanllawiau ar gyflawni eu swyddogaethau, drwy'r Fframwaith Cenedlaethol;

- Monitro cydymffurfiaeth â'r Fframwaith Cenedlaethol drwy lunio adroddiadau bob dwy flynedd, ac, ar sail barhaus, drwy ddadansoddi perfformiad ATAau fel y'i nodir yng nghynlluniau gwella ATAau a'u hasesiadau o berfformiad, adroddiadau SAC a gwaith dadansoddi a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub;

- Darparu canllawiau manwl ar gymhwyso'r Mesur, drwy ganllawiau statudol, blaenoriaethau a chanllawiau a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol a chylchlythyrau Tân ac Achub ategol gan Lywodraeth Cymru;

- Cyflwyno a chynnal dangosyddion perfformiad statudol;

- Rheoli’r grant i SAC ar gyfer asesiadau cynllunio gwelliant a chynnig meysydd i SAC eu hastudio a’u harolygu;

- Paratoi a chynnal protocol cymorth ac ymyrryd i ATAau o dan Ddeddf 2004 a’r Mesur.

## Pennod 3 – Gwelliant

### Diffinio Gwelliant

3.1 Yng nghyd-destun y Mesur, mae ‘gwelliant’ a ‘chynllunio gwelliant’ yn golygu mwy na buddiannau meintiol o ran allbwn neu effeithlonrwydd gwasanaethau neu o ran effeithiolrwydd mewnol sefydliad. Yn hytrach, mae’n golygu unrhyw beth sy’n gwella ansawdd bywyd cynaliadwy a’r amgylchedd i ddinasyddion a chymunedau lleol.

### Y Ddyletswydd Gyffredinol

3.2 O dan adran 2 o’r Mesur, mae dyletswydd gyffredinol ar ATAau i “wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau.” Dewiswyd y geiriad hwn yn fwriadol ac yn ofalus, ac mae dwy agwedd arno yn haeddu sylw pellach:

- Yn gyntaf, mae’r ddyletswydd yn cynnwys ‘gwneud trefniadau’ i wella. Nid oes unrhyw ddyletswydd absoliwt i wella, ac ni allai fod dyletswydd o’r fath ychwaith. Mae darparu gwasanaethau ymatebol ac ataliol o ansawdd uchel a lleihau nifer yr achosion o danau a’u difrifoldeb yn fusnes cymhleth ac yn aml yn anodd. Ni allai unrhyw sefydliad, ni waeth pa mor gymwys neu ba mor dda ei fwriad, warantu y byddai ei ymdrechion yn llwyddiannus. Felly, byddai dyletswydd absoliwt i wella naill ai’n peri methiant neu’n arwain at risg y câi amcanion anuchelgeisiol a llai perthnasol eu pennu. Nid yw hynny’n golygu mai’r cyfan sydd angen i ATAau ei wneud yw dylunio prosesau a dim mwy. Yn hytrach, dylai ATAau roi trefniadau ar waith sy’n eu galluogi i ddeall anghenion a blaenoriaethau lleol yn effeithiol er mwyn gwneud y defnydd gorau o’u hadnoddau a’u gallu i ddiwallu’r anghenion a bodloni’r blaenoriaethau hynny ac er mwyn gwerthuso effaith eu camau gweithredu.

- Yn ail, mae’r ddyletswydd yn cyfeirio at ‘welliant parhaus’. Dylai ATAau geisio sicrhau’n barhaus bod eu hamcanion gwella yn parhau’n berthnasol, bod y trefniadau gorau i’w cyflawni ar waith a’u bod yn gallu deall a dangos effaith y canlyniadau ar ddinasyddion.

3.3 Wrth gyflawni ei ddyletswydd, rhaid i ATA roi ystyriaeth benodol i’r angen i wella’r ffordd y caiff ei swyddogaethau eu gweithredu mewn sawl ffordd. Mae’r mesur yn cyfeirio at y rhain fel “agweddau ar welliant” fel a ganlyn:-

- Gwneud cynnydd tuag at amcanion strategol yr ATA sy’n deillio o’r Fframwaith Cenedlaethol a chynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;

- Gwella ansawdd gwasanaethau;

- Gwella argaeledd gwasanaethau;
- Tegwch, yn enwedig wrth leihau'r anghydraddoldeb y gall rhai grwpiau ei brofi wrth gael gafael ar wasanaethau neu gael budd o wasanaethau neu wrth wella llesiant cymdeithasol dinasyddion a chymunedau;

- Ffyrdd sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ardal;

- Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a swyddogaethau;

- Arloesedd a newid sy'n cyfrannu at unrhyw un o'r amcanion uchod.

3.4 Esbonnir yr holl dermau hyn yn adran 4 o'r Mesur ac nid yw'r Canllawiau hyn yn anelu at newid nac ychwanegu at yr esboniadau hynny. Mae'r canllawiau yn cyfeirio at sut i gymhwyso'r termau yn ymarferol.

3.5 Mae'r agwedd gyntaf, ***effeithiolrwydd strategol***, yn allweddol o ran cysylltu'r blaenoriaethau a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol, cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Cynllun Strategol yr ATA a'r prosesau parhaus sy'n sail iddynt, â phrosesau gwella ATA. Wrth reswm, dylai'r canlyniadau a'r amcanion a bennir o fewn Cynllun Strategol ATA fod yn greiddiol i weithgaredd gwella'r ATA hwnnw. Drwy wneud hynny, dylai ATAau allu datblygu naratif clir yn seiliedig ar eu cynlluniau ar gyfer gwella y bydd y dinasyddion a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn gallu uniaethu â hwy.

3.6 Mae'r tair agwedd nesaf, ***ansawdd gwasanaethau, argaeledd* a *thegwch*** oll yn ymwneud â darparu gwasanaethau, drwy anelu at ddiwallu anghenion dinasyddion, a sicrhau tegwch wrth gael gafael ar wasanaethau sy'n addas at y diben ac sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r agweddau hyn yn arbennig o berthnasol i ATAau o gofio eu cyfrifoldebau statudol i ddiogelu dinasyddion a chymunedau. Mae angen i ATAau gydbwyso eu gweithgareddau atal â'u gallu i ymateb i ddigwyddiadau brys. Yn amlwg, gellir dangos yr amcanion hyn yn unigol neu ar y cyd. Gellir hefyd ddangos tegwch drwy arfer swyddogaethau mewn ffyrdd sy'n lleihau anfanteision ac yn gwella llesiant cymdeithasol, er enghraifft drwy flaenoriaethu unigolion, grwpiau a chymunedau sy'n wynebu rig benodol mewn perthynas â thân.

3.7 Wrth gyflawni ei swyddogaethau neu ddarparu gwasanaethau, gall ATA ddangos gwelliant pan fydd yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cyfrannu at ***gynaliadwyedd*** ei ardal. Yn yr un modd, gellir hefyd gyflawni ***effeithlonrwydd*** parhaus os defnyddir llai o adnoddau tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau sylweddol debyg neu well. Yn amlwg, os bydd ATA yn dewis newid y ffordd y caiff gwasanaeth ei ddarparu, ac wrth wneud hynny, y bydd yn defnyddio llai o adnoddau neu'n darparu gwasanaethau mwy integredig, bydd nid yn unig yn dangos effeithlonrwydd, ond gall ddangos mwy o gynaliadwyedd hefyd.

3.8 Mae'r agwedd ***arloesed*** ychydig yn wahanol. Mae'n cwmpasu unrhyw newidiadau i ddulliau dylunio a darparu gwasanaethau y bwriedir iddynt arwain at welliant o dan unrhyw agwedd arall, ac sy'n rhesymol debygol o

wneud hynny. Mae hyn yn caniatáu i ATAau wneud newidiadau, na fyddant o bosibl yn cael effeithiau diriaethol yn ystod yr un flwyddyn adrodd, ond sy'n debygol o gael effeithiau o'r fath mewn blynyddoedd canlyniadol, a'u cyfrif fel gwelliannau o hyd.

3.9 Wrth reswm, er mwyn i ATA gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol yn llwyddiannus, dylai gynnwys y saith agwedd ar welliant ym mhob un o'i brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau a'i asesiadau o'i swyddogaethau a'i wasanaethau.

**Amcanion Gwella**

3.10 Pan fydd ATA yn ystyried ei ddyletswydd gyffredinol i wella, dylai ystyried y canlynol:

- Pennu ei amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn arfaethedig (a all gadarnhau neu ddiwygio amcanion blynyddoedd blaenorol);

- P'un a yw'r sefydliad mewn sefyllfa i gyflawni'r amcanion hynny.

3.11 Wrth benderfynu ar feysydd i'w gwella a'r amcanion gwella dilynol y bydd yn ymgynghori arnynt, dylai ATA ystyried camau gweithredu a fyddai'n:

- lleihau nifer yr achosion o danau a'u difrifoldeb a digwyddiadau eraill y mae'r ATA yn ymateb iddynt a/neu sy'n cyfrannu at atal tanau a pheryglon eraill yn effeithiol. Dylai hyn ystyried patrymau risg hysbys a phatrymau risg a ragwelir o fewn ardal ATA ac ymhlith ei ddinasyddion, tra'n sicrhau triniaeth a chanlyniadau teg i bawb;

- ymdrin â gwendidau hysbys (a rhagweld gwendidau tebygol) o ran gallu ATA i ddiwallu anghenion lleol a/neu nodi bylchau rhwng disgwyliadau lleol a'r gallu i'w bodloni;

- cynnwys defnydd effeithlon, effeithiol a chynaliadwy o adnoddau ariannol, naturiol a dynol;

- adlewyrchu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o batrymau, tueddiadau a phosibiliadau o fewn y cyd-destunau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol;

- manteisio i'r eithaf ar ddulliau gweithredu ac arloesol er mwyn cyflawni'r amcanion uchod;

- adlewyrchu'r dewisiadau anodd y gall ATA eu hwynebu wrth gytuno ar gyllidebau a blaenoriaethau. Gall fod yn rhaid i ATA hepgor rhai amcanion a fyddai'n ddymunol fel arall. Gall hefyd olygu bod anfanteision yn gysylltiedig â rhai amcanion dilys: gallant olygu cyfaddawdu rhwng agweddau ar wella, neu gallant arwain at gostau cyfle. Mae dull gweithredu o'r fath yn ddilys ac yn angenrheidiol, yn enwedig o ystyried cyfyngiadau o ran adnoddau neu lle bo anghenion lleol yn arbennig o ddifrifol;

- efallai mai'r peth pwysicaf yw bod yn heriol ond yn realistig. Mae 'rhestr ddymuniadau' o amcanion anghyrhaeddadwy a/neu anghynaliadwy yn codi disgwyliadau afrealistig ac nid yw'n fwy dymunol na set anuchelgeisiol o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni ond nad ydynt yn gwneud fawr ddim i ddiwallu anghenion gwirioneddol. Dylai ATAau feddwl yn ofalus am eu gallu i roi newidiadau cadarnhaol ar waith a llunio eu hamcanion yn unol â hynny.

**Nodi Amcanion Gwella**

3.12 Dylai ATAau benderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer gwelliant yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr yn seiliedig ar dystiolaeth o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, anghenion lleol a'u gallu i fynd i'r afael â hwy. Mae Pennod 4 yn ymdrin â lleihau risg mewn cymunedau yn fanylach. Felly, dylai pob ATA nodi ei amcanion gwella ar sail hunanddadansoddiad beirniadol gan ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth megis:

- Blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer ATAau, fel y'u nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol;

- Y canlyniadau a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer ardal yn ei Chynllun Strategol a ddylai gynnwys blaenoriaethau perthnasol a nodwyd o fewn cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;

- Blaenoriaethau fel y'u nodwyd drwy'r partneriaethau statudol, megis y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a'u cynlluniau cysylltiedig;

- Y blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth a gynhwyswyd o fewn Cynllun Gwella Blynyddol y flwyddyn flaenorol;

- Canlyniadau unrhyw waith dadansoddi risg yn y gymuned a'r cynigion lleihau risg sy'n deillio o hynny (gan gynnwys gwaith modelu sy'n rhagfynegi newid y proffil risg ar gyfer cymunedau gan ddefnyddio model Trefniadau Brys y Gwasanaeth Tân (FSEC) a/neu adnoddau modelu eraill a ddefnyddir gan ATAau);

- Canlyniad ei ymarferion asesu ar gyfer swyddogaethau corfforaethol a gwasanaethau a ddarperir gan ddefnyddio'r data perfformiad mwyaf priodol. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion perfformiad statudol a gwybodaeth o ffynonellau eraill megis anghenion dinasyddion a defnyddwyr a gwybodaeth boddhad a gwybodaeth ehangach am anghenion y gymuned;

- Adroddiadau archwilio, rheoleiddio ac arolygu, yn enwedig yr Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru;

- Canlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid ac unrhyw waith asesu a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub;

- Blaenoriaethau a nodwyd drwy feincnodi perfformiad yn erbyn blynyddoedd blaenorol a chyda sefydliadau eraill (gan gynnwys ATAau eraill yng Nghymru a thu hwnt);

- Tystiolaeth yn deillio o waith ymgynghori ar amcanion gwella yn ystod y flwyddyn flaenorol;

- Arloesedd ac arfer gorau mewn mannau eraill;

- Y cyd-destun byd-eang – e.e. newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd, amodau economaidd a bygythiadau i iechyd.

3.13 Dylai amcanion gwella a ddewisir o ganlyniad i'r prosesau hyn fod yn gredadwy yn nhyb dinasyddion, rhanddeiliaid a staff ATAau. Dylai hyn arwain at well ymdeimlad o "berchenogaeth" o'r uchelgeisiau i gymunedau a'r ardal.

3.14 Mae datblygu, mabwysiadu a gweithredu ar drefniadau hunanasesu trylwyr, cadarn a chynhwysfawr yn hanfodol er mwyn deall gwendidau gwirioneddol neu bosibl a meysydd i'w gwella. Mae herio gan gymheiriaid yn elfen allweddol o'r broses hunanasesu a gellir ei defnyddio ar gyfer nifer o swyddogaethau corfforaethol a gweithredol. Mae cynnal asesiadau gan gymheiriaid o allu ac effeithiolrwydd ATAau yn hanfodol, gan gynnig her allanol ar faterion sy'n aml yn gofyn am lefel o arbenigedd technegol.

3.15 Mae asesiadau gan gymheiriaid o allu ac effeithiolrwydd gweithredol yn amlwg yn faes sy'n berthnasol i ofynion adolygu perfformiad ac adrodd ar berfformiad y Mesur a Deddf 2004. Dylai ATAau reoli, arwain a chymryd perchenogaeth dros y broses asesu. Fodd bynnag, bydd cytuno ar gynigion i'w hadolygu â SAC a'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub, a'u cynnwys mewn elfennau o'r gwaith asesu lle y bo'n berthnasol, yn arwain at ddull gweithredu mwy cydgysylltiedig a chydlynol mewn perthynas â'r rhaglen asesu ehangach. Dylai ATAau sicrhau bod y broses asesu yn gadarn a'i bod yn arwain at gamau gweithredu effeithiol. Er mwyn gwneud hynny, bydd angen i ATAau wneud y canlynol:-

- Cynnal asesiadau gan gymheiriaid yn rheolaidd er mwyn bwydo i'w trefniadau perfformiad a gwelliant lleol gan gynnwys y cylch cynllunio gwelliant sy'n ofynnol o dan y trefniadau a nodir yn y canllawiau hyn, ond nid yn gyfyngedig i hynny;

- Sicrhau y ceir barn allanol annibynnol drwy ddefnyddio swyddogion sy'n gymwys yn y sector o ATAau eraill, yn ddelfrydol gan gynnwys cynrychiolaeth o'r tu allan i Gymru a chynrychiolwyr o sectorau eraill, o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, fel y bo'n briodol;

- sicrhau tryloywder yn y broses drwy sicrhau bod adroddiadau terfynol asesiadau gan gymheiriaid ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol. Dylai adroddiadau o'r fath gyfeirio'n glir at y canlyniadau o ran arfer da ac o ran meysydd i'w gwella, a nodi p'un a fydd yr ATA yn ymdrin â'r canlyniadau fel mater o drefn neu fel rhan o'i gynlluniau gwella;

- Darparu copïau o adroddiadau asesiadau gan gymheiriaid i Weinidogion Cymru mewn modd amserol. Bydd y rhain yn ategu adroddiadau statudol Gweinidogion Cymru ar y graddau y mae ATAau wedi gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol.

**Llunio Amcanion Gwella**

3.16 Drwy gwblhau'r prosesau uchod, dylai ATAau allu llunio eu hamcanion gwella er mwyn ymgynghori arnynt. Nid yw'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i amcanion gwella gael eu nodi ar unrhyw ffurf benodol ond mae'r canllawiau hyn yn awgrymu proses ar gyfer llunio amcanion o'r fath sy'n uno cylchoedd perfformiad a chynllunio. Dylai pob amcan gwella fod yn:

- Ddilys - gan wneud cyfraniad amlwg at o leiaf un (neu, fwy na thebyg, fwy nag un) o'r agweddau ar welliant a restrir yn y Mesur;

- Clir – gan nodi'r gwelliannau amlwg y gall dinasyddion eu disgwyl;

- Cadarn – gan bennu beth yw llwyddiant (boed yn feintiol neu'n ansoddol);

- Cyflawnadwy – gyda chysylltiadau sefydledig â rhaglenni a chyllidebau gwasanaethau unigol;

- Dangosadwy - gellir ei ategu gan dystiolaeth wrthrychol (ond nid o reidrwydd dystiolaeth fesuredig neu feintiol).

3.17 ***Nid*** yw'r agweddau ar welliant yn y Mesur yn gweithredu fel rhestr wirio ar gyfer llunio amcanion ac nid oes angen eu defnyddio fel penawdau ar gyfer trefnu amcanion gwella unigol oddi tanynt. Yn hytrach, maent yn nodi'n fras y mathau o amcanion y bydd ATAau yn awyddus i'w cyflawni. Bydd llawer o'r amcanion gwirioneddol, os nad y rhan fwyaf ohonynt, yn cyfrannu at fwy nag un agwedd ar welliant.

3.18 Unwaith eto, penderfyniad lleol fydd faint o amcanion gwella a bennir. Cyhyd ag y bo'r amcanion gyda'i gilydd yn ymdrin yn ddigonol â'r prif flaenoriaethau ac anghenion lleol, yna nid yw eu hunion nifer mor bwysig.

3.19 Yn gyffredinol, y tebyg yw y byddai'n well, o ran eglurder ac atebolrwydd, gael llai o amcanion, gyda chysylltiadau manwl â rhaglenni gwasanaeth na chael mwy o amcanion manwl.

3.20 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau bennu amcanion gwella bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y dylai pob amcan gwella newid bob blwyddyn, nac y dylid gallu eu cyflawni i gyd o fewn blwyddyn. Mae'n gwbl ddilys pennu amcanion sy'n berthnasol i fwy nag un flwyddyn, gan nodi o bosibl gerrig milltir i'w cyflawni yn y cyfamser, ar yr amod y bydd ATAau yn eu hadolygu bob blwyddyn er mwyn cadarnhau eu bod yn berthnasol o hyd. Dylid sicrhau bod cyswllt clir rhwng yr amcanion blynyddol hyn a chynlluniau tymor canolig ATAau.

**Ymgynghori ar Welliannau**

3.21 Mae adran 5 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau ymgynghori â dinasyddion a chymunedau am eu dyletswydd gyffredinol i wella a'u hamcanion gwella. Nid yw'r Mesur yn dynodi sut y dylid ymgynghori. Dylai trefniadau ymgynghori fod yn effeithiol wrth ymgysylltu â chymunedau lleol. Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n gyfeillgar i ddinasyddion, gan gynnwys, er enghraifft, darparu crynodebau gweithredol mewn dogfennau ymgynghori a defnyddio prosesau a digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned.

3.22 Dylai ATAau anelu at sicrhau bod y broses o bennu amcanion gwella mor agored a thryloyw â phosibl. Argymhellir y dylai ATAau ymgynghori â'r canlynol cyn pennu eu hamcanion gwella:

- Dinasyddion a rhanddeiliaid;
- Busnesau lleol;
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- ATAau eraill (yn enwedig lle y gall unrhyw amcanion gwella arfaethedig effeithio arnynt);
- Cyrff eraill y mae'r ATA yn cydweithio â hwy neu y mae'n bwriadu cydweithio â hwy.

3.23 Dylai ATAau gadw tystiolaeth o'u hymgynghoriadau er mwyn gallu dangos bod eu hamcanion gwella a'u cynlluniau ar gyfer cyflawni eu hamcanion wedi'u nodi a'u pennu'n briodol. Er budd craffu ac atebolrwydd, dylid cadw'r dystiolaeth hon ar ffurf hygyrch.

**Cofnodi ac Adrodd ar Gynnydd**

3.24 Bydd angen i ATAau gasglu tystiolaeth o'u cynnydd wrth gyflawni eu hamcanion gwella yn ystod y flwyddyn. Cyfrifoldeb yr ATAau eu hunain fydd penderfynu beth yw'r dystiolaeth orau o'r cynnydd y maent yn anelu at ei wneud, a'r ffordd orau o wneud hynny yw drwy bennu amcanion gwella. Fodd bynnag, bydd angen i'r dystiolaeth fodloni gofynion Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub. Fwy na thebyg y bydd angen amrywiaeth o dystiolaeth ar y rhan fwyaf o amcanion gwella cadarn er mwyn dangos eu bod wedi'u cyflawni. Gall tystiolaeth o'r fath gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- Dangosyddion perfformiad; y rhai a bennwyd yn lleol ac yn genedlaethol;

- Gwybodaeth ansoddol megis arolygon boddhad defnyddwyr a dinasyddion (gyda'r ddau arolwg wedi'u cynnal gan yr ATA neu gan gyrff eraill). Bydd y wybodaeth hon yn arbennig o bwysig i ATAau wrth asesu llwyddiant eu gweithgareddau diogelwch cymunedol sy'n canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth a newid ymddygiad;

- Cynnydd o ran cyflwyno neu gwblhau rhaglenni, cyfleusterau neu ffyrdd o weithio sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion gwella;

- Adroddiadau gan reoleiddwyr a chyrff arolygu;

- Unrhyw ffynonellau eraill o dystiolaeth sy'n ymddangos yn berthnasol.

3.25 Y tebyg yw y bydd angen amrywiaeth o dystiolaeth ar y rhan fwyaf o amcanion gwella cadarn er mwyn dangos eu bod wedi'u cyflawni. Yn sicr, dylai ATAau osgoi defnyddio dangosyddion perfformiad a thargedau fel amcanion ynddynt hwy eu hunain. Dylid ond eu defnyddio fel un o'r adnoddau i helpu i ddangos gwelliant.

3.26 Wrth gasglu tystiolaeth fel y'i hamlinellir uchod, dylai ATAau geisio casglu ynghyd gorff o dystiolaeth a fydd yn golygu y gall roi disgrifiad naratif o'i lwyddiant wrth anelu at ei amcanion gwella. Bydd hyn yn golygu y gall roi cyfrif am ei berfformiad i ddinasyddion, rhanddeiliaid a chyrff rheoleiddio. Dylai ganolbwyntio nid yn unig ar ddisgrifio 'faint' neu 'pa mor dda' ond yn bwysicach na hynny, pa effaith a gyflawnwyd. Dylid coladu'r amrywiaeth hon o dystiolaeth a'i chyfleu mewn adroddiad neu adroddiadau, y mae adran 15 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau eu cyhoeddi erbyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol fan bellaf.

## Pennod 4 – Rheoli Risg mewn Cymunedau

### Cyd-destun Strategol

4.1 Mae Rhan 1 o'r Mesur yn canolbwyntio ar wella yn hytrach na risg. Fodd bynnag, cydnabyddir yn achos ATAau fod lleihau'r risg i gymunedau (o ran lleihau achosion o danau a digwyddiadau eraill, a lleihau effaith digwyddiadau o'r fath pan fyddant yn digwydd) yn un o gonglfeini agenda wella pob ATA. Mae lleihau'r risg i'r gymuned yn amlwg yn welliant o fewn telerau'r Mesur. Er bod y gofyniad i ATAau lunio a chyhoeddi Cynlluniau Lleihau Risg ar wahân wedi'i ddileu, bydd cynllunio ar gyfer lleihau risg yn parhau yn un o'r dulliau craidd y bydd ATAau yn eu defnyddio i'w helpu i ddatblygu a chyflawni eu hamcanion gwella.

### Lleihau Risg

4.2 Nid oes dull safonol o ran lleihau risg ac effaith tanau a digwyddiadau eraill, ond dylai ATAau bob amser ystyried addysg ac atal, meini prawf ymateb (yn seiliedig ar Egwyddorion Tywys Llywodraeth Cymru ar gyfer Safonau Ymateb i Tanau mewn Anheddau ac unrhyw ganllawiau canolog yn y dyfodol) a hyfforddiant a datblygiad dynion a merched tân fel agweddau allweddol ar ymdrin â risg.

4.3 Fel rhan o ymdrechion ATAau i wella'n barhaus a lleihau risg, mae dull gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth yn hanfodol. Dylai ATAau ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i nodi opsiynau a dilysu penderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys gwaith modelu cyfrifiadurol, data a gwybodaeth ar lefelau gweithgarwch, deallusrwydd cymunedol a data arall gan bartneriaid, yn ogystal â chanllawiau cenedlaethol. Rhaid i ATAau ystyried amrywiaeth y boblogaeth a wasanaethir ganddynt a'r ffactorau sy'n llywio risg o fewn y boblogaeth honno er mwyn cynllunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfan.

4.4 Ni waeth pa ddull asesu neu ddadansoddi risg a ddefnyddir, rhaid i unrhyw gynigion sy'n deillio o'r asesiad fod wedi'u dilysu, yn dryloyw ac yn gallu gwrthsefyll prosesau craffu.

4.5 Bydd risg yn newid dros amser. Felly, bydd angen gwaith adolygu a monitro rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff risg ei lleihau i'r eithaf cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol ac yn parhau'n dderbyniol i'r ATA. Mae trefniadau rheoli

risg yn effeithiol pan gaiff yr holl risgiau perthnasol eu nodi, a phan gaiff y risgiau hynny eu hosgoi, eu lliniaru neu eu rheoli i lefel dderbyniol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Bydd trefniadau adolygu rheolaidd yn sicrhau bod y cyfeiriad strategol a bennir gan yr ATA yn parhau'n briodol, yn gymesur ac yn effeithiol.

4.6 Mae perchenogaeth, cefnogaeth ac arweinyddiaeth gan yr ATA a'r uwch reolwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau bod trefniadau rheoli risg yn parhau ac yn datblygu. Mae cyfathrebu ym mhob rhan o'r ATA yn hanfodol er mwyn iddo greu diwylliant rheoli risg sy'n hyrwyddo arloesed. Rhaid cynnwys trefniadau rheoli risg o fewn penderfyniadau rheoli a'u cysylltu â Chynlluniau Strategol ATAau, eu hamcanion gwella a'r amcanion corfforaethol sy'n deillio o hynny.

4.7 Mae angen i ATAau gydnabod eu hymrwymiad fel ymatebwyr categori 1 i Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a'r angen i sicrhau cydnerthedd y DU o dan awenau'r rhaglen Cydnerthedd Cenedlaethol.

## Pennod 5 – Gwybodaeth am Welliannau

5.1 Mae gan ATAau ddyletswydd o dan y Mesur i gasglu gwybodaeth am berfformiad yn ystod pob blwyddyn ariannol (adran 13) ac i ddefnyddio'r wybodaeth honno (adran 14) i gymharu eu perfformiad yn ystod blynyddoedd blaenorol ac i gymharu eu perfformiad â pherfformiad eraill. Mae hefyd yn ofynnol iddynt ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ganddynt am eu perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol i asesu sut y gallant wella. Er mwyn helpu i bennu amcanion gwella, bydd angen i ATAau symud o drefniadau rheoli perfformiad sydd ond yn ymdrin â'r broses o ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt i drefniadau sy'n ymwybodol o effeithiau'r gwasanaethau a ddarperir a'r gweithgareddau a gyflawnir ganddo ar ardal a'i chymunedau, ac a gaiff eu llywio gan yr effeithiau hynny. Byddai hyn yn cynnwys gwerthuso a rheoli'r effaith a gaiff yr ATA ar y cynlluniau ehangach ar gyfer ardal fel y'u nodir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

5.2 Yn unol â hynny, dylai ATAau ystyried defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i asesu perfformiad eu gwasanaethau a'r effaith a gânt ar ganlyniadau i ddinasyddion a chymunedau. O reidrwydd, bydd gofyn i ATAau ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth i'w defnyddio fel gwybodaeth am welliannau. Er bod dangosyddion perfformiad yn parhau'n ffynonellau pwysig o dystiolaeth wrthrychol a chymaradwy, nid ydynt o reidrwydd yn rhoi darlun llawn o ansawdd y gwasanaeth na phrofiad defnyddwyr ohono. Gall yr amrywiaeth hon o dystiolaeth gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- Dangosyddion perfformiad (boed yn rhai statudol, sector neu leol);
- Data boddhad: arolygon dinasyddion, safbwyntiau defnyddwyr neu baneli neu reithgorau dinasyddion;
- Lefelau defnydd gwasanaeth;
- Canlyniadau asesiadau o wasanaethau ac adolygiadau gan gymheiriaid;
- Allbynnau unrhyw broses graffu gan yr ATA;
- Canfyddiadau archwilio, rheoleiddio ac arolygu;

- Lefelau achredu i gynlluniau asesu cydnabyddedig;

- Modelu'r risg i'r Gymuned (FSEC ac adnoddau modelu eraill a ddefnyddir gan ATAau);

- Gwybodaeth sy'n ymwneud â'r angen i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd newydd neu fwy arloesol, gan gynnwys defnyddio/gweithredu arfer da o rannau eraill o'r DU neu'n ehangach, a chyngor a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru a'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub;

- Meincnodi gydag ATAau eraill yng Nghymru a thu hwnt.

5.3 Mae'n ofynnol i ATAau ddefnyddio'r wybodaeth am welliant a gesglir ganddynt er mwyn cymharu eu perfformiad â'u perfformiad hanesyddol yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol a, chyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, ag ATAau eraill a, lle y bo'n briodol, awdurdodau cyhoeddus eraill sy'n arfer swyddogaethau tebyg (adran 14). Mae'r nifer fach o ATAau a'r topograffi gwahanol o fewn pob ATA yn golygu nad yw ymdrechion i gymharu'r tri ATA yng Nghymru bob amser yn rhoi arwydd gwirioneddol o berfformiad. Felly, dylai ATAau hefyd feincnodi eu perfformiad yn erbyn ATAau y tu allan i Gymru. Dylai'r gwaith asesu cymharol hwn fod yn waith parhaus drwy gydol y flwyddyn o fewn ATA, ond mae angen cyhoeddi crynodeb fel rhan o'i adroddiad gwella (gweler pennod 7).

5.4 Dylai'r broses o gymharu perfformiad fod yn sail i asesiad yr ATA o'i angen i wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo a llesiant y cymunedau a'r ardaloedd a wasanaethir ganddo. Yn amlwg, po fwyaf yr amrywiaeth o dystiolaeth y gall ATA ei defnyddio, y gorau y bydd ei sefyllfa o ran gallu cynllunio a thargedu ei weithgareddau gwella yn y dyfodol.

5.5 Mae gwerthuso amrywiaeth eang o ddata yn cynnig cyfle i ATAau a'u partneriaid asesu perfformiad a chyflawniadau yn y gorffennol, a hefyd i nodi blaenoriaethau byrdymor, tymor canolig a hirdymor lle y mae angen gwella. Gall dadansoddi data helpu i lywio amcanion gwella'r flwyddyn ganlynol (gan helpu hefyd i nodi a monitro'r camau gweithredu sydd eu hangen o fewn Cynllun Strategol ATA er mwyn bodloni blaenoriaethau'r Fframwaith Cenedlaethol ac amcanion llesiant yr ATA).

**Dangosyddion Perfformiad Statudol**

5.6 Gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau yn y Mesur i bennu dangosyddion perfformiad a safonau statudol cenedlaethol a fydd yn caniatáu i ATAau feintioli eu cyfraniad at amcanion polisi pwysig i Gymru gyfan a chyflwyno adroddiad ar y cyfraniad hwnnw. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag ATAau, SAC a chyrff perthnasol eraill cyn rhagnodi dangosyddion o'r fath.

5.7 Nodir dangosyddion strategol cenedlaethol mewn Gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, ceir tri dangosydd o'r fath:

- Nifer y tanau fesul 10,000 o'r boblogaeth;

- Nifer y marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i dân fesul 100,000 o'r boblogaeth;

- Canran y tanau mewn anheddau a gyfyngwyd i'r ystafell lle y dechreuodd y tân.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar ATAau i gasglu ac adrodd ar y dangosyddion hyn. Dylent wneud hynny drwy gynnwys y data yn eu hadroddiadau gwella (gweler pennod 7) a dylent hefyd gyflwyno'r data i Lywodraeth Cymru ar gais. Fel gydag unrhyw wybodaeth am berfformiad, gellir cynnal archwiliad allanol o ddangosyddion perfformiad statudol os bydd yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod angen gwneud hynny.

5.8 Mae'r dangosyddion perfformiad hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ATAau a bennwyd gan y Fframwaith Cenedlaethol a chyngor a chanllawiau dilynol.

**Dangosyddion Perfformiad y Sector**

5.9 Dylai'r set statudol o ddangosyddion perfformiad fod wedi'i hategu gan set o ddangosyddion perfformiad diffiniedig ar gyfer y sector ledled Cymru. Dylai'r ATAau ddatblygu'r dangosyddion perfformiad ar gyfer y sector ledled Cymru mewn partneriaeth â'i gilydd. Bydd y dull gweithredu hwn yn hwyluso cysondeb o ran terminoleg a diffiniadau a ddefnyddir, gan gofnodi dulliau a chyfrifiadau. Bydd y dangosyddion perfformiad ar gyfer y sector ledled Cymru yn:

- rhoi gwybodaeth fanwl a chymaradwy am y canlyniadau a gyflawnwyd o fewn y gwasanaethau a gwmpesir ganddynt am argaeledd ac ansawdd gwasanaethau a'r defnydd o adnoddau i'w hategu;

- helpu ATAau i esbonio a rhoi cyfrif am eu perfformiad i randdeiliaid, a'u hannog i gymryd rhan mewn trefniadau gwerthuso perfformiad a phennu blaenoriaethau drwy'r broses ymgynghori ar amcanion gwella;

- cael eu llunio i ddiwallu rhai o anghenion data rheoleiddwyr ac arolygwyr gymaint â phosibl, gan leihau'r angen i ddyblygu data;

- mesur perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol;

- ategu gwaith meincnodi ehangach gydag ATAau eraill y tu allan i Gymru;

- gallu cael eu dadgyfuno i ddatgelu lefelau gwahaniaethol o fewn y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau cymunedol gwahanol ac o fewn perfformiad mewn perthynas â'r grwpiau hyn (gan gynnwys grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig);

- gallu cael eu cymharu dros amser a ledled Cymru, gan alluogi ATAau i nodi'n hawdd ble y gellir gwella ac yn yr un modd, ble y gallant rannu arfer effeithiol.

5.10 Mae'n bosibl y caiff dangosyddion perfformiad y sector eu harchwilio os bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r farn bod angen gwneud hynny, er enghraifft, os oes pryderon ynghylch cadernid y systemau casglu data mewn maes penodol. Gall ATAau ofyn am archwiliad o ddangosyddion perfformiad penodol os oes ganddynt bryderon ynghylch cywirdeb y data gwreiddiol neu o ganlyniad i ddiddordeb penodol.

**Dangosyddion lleol**

5.11 Nod y mesurau perfformiad a bennir yn genedlaethol yw cofnodi perfformiad yn holl ardaloedd yr ATAau. Fodd bynnag, nid yw mesurau o'r fath yn gwbl gynhwysfawr. Yn arbennig, ni allant fesur sut y cyflawnir polisïau, blaenoriaethau na phrosiectau lleol penodol y mae'r ATAau yn ymrwymedig iddynt ac ni allant ychwaith fesur cynnydd tuag at amcanion nad ydynt yn addas i'w mesur mewn modd meintiol. Heb ffordd o fesur y rhai hefyd, ni fyddai proses o fesur perfformiad yn gynhwysfawr nac yn gytbwys o fewn pob ATA.

5.12 Felly, dylai ATAau barhau i ddatblygu a defnyddio eu mesurau perfformiad eu hunain sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau a'u dyheadau unigol, yn ogystal â phenderfyniadau rheoli a gweithredol manwl ategol. At hynny, ar ôl pennu eu hamcanion gwella, bydd angen i ATAau ystyried unrhyw ofynion data ychwanegol a all godi a phennu dangosyddion perfformiad lleol iddynt hwy eu hunain yn unol â hynny. Dylent hefyd ddefnyddio adnoddau asesu nad ydynt yn feintiol fel y bo'n briodol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd dulliau gweithredu o'r fath yn berthnasol i ATAau eraill ac y gallant eu defnyddio, ac felly dylai ATAau fod yn barod i rannu eu profiadau o ddatblygu a defnyddio dangosyddion perfformiad lleol gyda'u cymheiriaid. Fodd bynnag, mae adran 9 o'r Mesur yn rhoi'r pŵer i ATAau gydweithio, ac mae adran 12 yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau ystyried p'un a fyddai trefniadau cydweithio o'r fath yn helpu i gyflawni eu dyletswyddau gwella. Os felly, rhaid iddynt geisio arfer y pŵer hwnnw. Mae rhannu profiadau a gwybodaeth am ddangosyddion yn debygol o fod yn rhan o'r darpariaethau hyn.

**Gwybodaeth Arall am Welliannau**

5.13 Yn amlwg, bydd angen data cyd-destunol ychwanegol neu wybodaeth gymunedol ar ATAau i'w helpu i benderfynu ar eu hamcanion gwella ac i ategu eu systemau llywodraethu ac atebolrwydd. Mae angen y wybodaeth ychwanegol hon am welliannau er mwyn i ATAau ystyried y ffactorau allanol a all effeithio ar wahanol leoedd neu gymunedau a bydd yn eu helpu i nodi a deall anghenion a dyheadau pob rhan o'r cymunedau a rhanddeiliaid eraill a wasanaethir ganddynt.

5.14 Yn arbennig, mae'n anodd dangos effaith gwaith diogelwch tân ac atal tân drwy ddata perfformiad wedi'u meintioli yn unig. Mae hyn am ei bod yn

amhosibl datgysylltu ymdrechion ATAau i wella diogelwch a thueddiadau a newidiadau ehangach (megis llai o bobl yn ysmygu neu ddefnydd helaethach o ddeunyddiau dodrefnu sy'n gwrthsefyll tân) sydd hefyd yn dueddol o leihau nifer yr achosion o danau. Yn yr un modd, nid yw mesur faint o waith diogelwch tân yr ymgymerir ag ef (megis nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref) yn unig o reidrwydd yn darparu gwybodaeth am ganlyniadau gwaith o'r fath.

5.15 Felly, dylai ATAau ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill, mwy ansoddol i asesu a dangos effeithiau eu gwaith ataliol. Gallai'r rhain gynnwys arolygon o ymwybyddiaeth o dân a chanfyddiadau diogelwch; trafodaethau gydag unigolion a grwpiau sy'n wynebu risg uchel mewn perthynas â thanau; nac astudiaethau achos o ymyriadau neu raglenni penodol. Wrth ddewis, dadansoddi ac adrodd ar dystiolaeth o'r fath, dylai ATAau fod yn onest ac yn gytbwys. Ni ddylent ddibynnu ar sylwadau, disgrifiadau neu astudiaethau achos mwy ffafriol yn unig.

## Pennod 6 – Gweithio gyda'n gilydd (Cydweithio)

### Cydweithio er mwyn Gwella a phwerau a dyletswyddau ATAau

6.1 Mae penodau cynharach o'r canllawiau hyn yn nodi'r egwyddor sylfaenol y dylai gwelliant ganolbwyntio ar elfennau allanol, sy'n ymwneud â sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau. Ni ddylai ganolbwyntio ar atgyfnerthu prosesau mewnol ac allbynnau gwasanaeth ATA fel bod y rhai yn dod yn nodau ynddynt hwy eu hunain.

6.2 O ganlyniad, mae angen i ATAau ystyried pa drefniadau gweithredu i'w rhoi ar waith i wireddu'r canlyniadau hynny orau. Ni ddylent dybio bod prosesau traddodiadol neu hirsefydledig bob amser yn addas. Mewn llawer o achosion, gall ATAau gyflawni gwell canlyniadau yn gyflymach neu'n fwy effeithlon drwy gydweithio â'i gilydd neu gyda sefydliadau eraill.

6.3 Cydnabyddir yn eang fod cydweithio yn ffordd o lywio sawl math o welliant. Drwy weithio gyda chyrff eraill, nid yn unig ATAau eraill, gall ATA wneud y canlynol:

- Gwella effeithiolrwydd strategol drwy gydgysylltu ei weithrediadau â gweithrediadau cyrff eraill er mwyn sicrhau canlyniadau llesiant nad ydynt o dan reolaeth lwyr ATA unigol. Mae hyn yn amlwg yn flaenoriaeth allweddol ym maes atal ac ym maes ymateb. Bydd angen i ATAau barhau i weithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig wrth nodi a chefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Yn yr un modd, dylai datblygu dulliau cynllunio strategol gyda gwasanaethau brys eraill arwain at ymateb mwy cydgysylltiedig a chydlynus i argyfyngau. Mae gofyniad penodol yn hyn o beth i ATAau gydweithio'n agosach ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gydgysylltu ac alinio eu systemau strategol a'u systemau ar gyfer darparu gwasanaethau;

- Gwella ansawdd, tegwch ac arloesedd gwasanaethau drwy fabwysiadu'r arfer gorau o fannau eraill neu drwy rannu arbenigedd rheoli, proffesiynol neu dechnegol prin;

- Gwella argaeledd gwasanaethau, er enghraifft, drwy gynnal trefniadau presennol a datblygu trefniadau newydd o dan gynlluniau atgyfnerthu lleol. Ar raddfa fwy, gellir sicrhau gwelliant drwy drefniadau cymorth ar y cyd, cynyddu'r gyfran o staff rheng flaen a lleihau'r gorbenion gweinyddol;

- Gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd drwy wireddu arbedion maint a manteisio ar fwy o rym prynu. Gallai hyn gynnwys gwaith drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol neu gyfleoedd eraill i nodi arbedion, effeithlonrwydd a buddiannau economaidd.

6.4 Gall hyn fod yn arbennig o bwysig yn ystod adegau pan fo pwysau ar gyllid cyhoeddus a bydd ATAau yn naturiol o bosibl yn awyddus i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen a chadw ffocws strategol. Os cânt eu rheoli'n briodol, gall trefniadau cydweithio wneud defnydd gwell o adnoddau prin a'i

gwneud yn bosibl i amrywiaeth eang o wasanaethau gael eu cynnal.

6.5 Dylid ystyried cyfleoedd i wella o ran yr hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio. Nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r hyn y gall ATAau ei ddarparu neu ei gyflawni drwy weithredu ar eu pen eu hunain. Yn hytrach, os oes potensial i ATAau sicrhau gwelliant drwy gydweithio, mae adran 12 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r ATAau hynny geisio cydweithio. Bydd perygl na fydd ATA nad yw'n cydweithio yn llwyddo i gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella yn llawn, hyd yn oed os bydd yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i amcanion gwella ac os bydd ei wasanaethau ei hun yn perfformio'n gymharol dda.

6.6 Mae rhoi trefniadau cydweithio effeithiol ar waith yn cymryd amser ac adnoddau ac yn amlwg, mae angen i'r buddiannau posibl gyfiawnhau'r buddsoddiad hwnnw. Mae'r un mor bwysig i'r trefniadau fod yn gwbl glir ynghylch priod rolau a chyfrifoldebau, y trefniadau ar gyfer llywodraethu'r prosiect cydweithio a sut y bydd cyfranogwyr yn rhoi cyfrif yn fewnol ac yn allanol am eu perfformiad.

6.7 Er mwyn cael gwared ar yr ansicrwydd cyfreithiol a all ohirio neu rwystro prosiectau cydweithio posibl, mae adran 9 o'r Mesur yn rhoi pŵer cyffredinol i awdurdodau gydweithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus; cyflawni amcanion gwella, a/neu gyrraedd safonau perfformiad penodedig. O dan y pŵer hwn, gall ATA:

- roi cymorth ariannol;
- ymrwymo i drefniadau neu gytundebau;
- cydweithredu â pherson arall neu hwyluso neu gydgysylltu gweithgareddau person arall[1];
- arfer swyddogaethau ar ran person arall;
- darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu adeiladau.

6.8 Nid yw ATAau wedi'u cyfyngu o ran pwy y gallant gydweithio â hwy. Gall ATAau yng Nghymru gydweithio â'r gilydd neu gydag awdurdodau neu sefydliadau eraill yn y DU (gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau elusennol a sefydliadau'r sector preifat yn y DU a/neu dramor) ar yr amod nad oes unrhyw rwystrau cyfreithiol o ran gwneud hynny.

6.9 O dan adran 12 o'r Mesur, rhaid i ATAau ystyried p'un a fydd arfer y pŵer i gydweithio yn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ran 1 o'r Mesur, ac os felly, rhaid iddynt geisio arfer y pŵer hwn.

6.10 Mae'r pŵer i gydweithio yn berthnasol yn ychwanegol at y pŵer a nodir yn Neddf 2004 o ran cynlluniau atgyfnerthu (gweler adran 13 o Ddeddf 2004).

[1] Noder mai ystyr "person" yn y cyd-destun hwn yw unrhyw endid â phersonoliaeth gyfreithiol, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, cwmnïau ac elusennau. Nid yw'n golygu bod dynol unigol yn unig.

Wrth gwrs, bydd angen i ATAau hefyd fod yn ymwybodol o unrhyw flaenoriaethau cydweithio a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol.

**Ymgynghori ac Adrodd**

6.11 Dylai ATAau ystyried o bryd i'w gilydd p'un a fyddai arfer eu pŵer cydweithio o gymorth wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella. Dylai pob ATA benderfynu drosto'i hun pryd y byddai orau iddo ystyried cydweithio ond byddai'r canlynol yn ymddangos yn fuddiol:

- wrth nodi lle mae angen gwelliant;
- wrth lunio amcanion gwella neu ymgynghori arnynt;
- yn ystod y broses o bennu'r gyllideb;
- wrth ystyried ad-drefnu gwasanaethau neu staff;
- wrth ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau;
- wrth ymateb i allbynnau neu argymhellion unrhyw weithgaredd craffu;
- ar ôl cael adroddiadau gan arolygwyr a rheoleiddwyr;
- ar ôl cael gwahoddiad i wneud hynny gan awdurdodau gwella eraill neu gan Weinidogion Cymru.

6.12 Dylai ATAau gyhoeddi adroddiad cryno o'u gweithgareddau cydweithio yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol sy'n ategu'r broses o gyflawni eu hamcanion gwella. Nid oes angen i'r adroddiad hwn fod yn fanwl nac yn helaeth. Gall ATAau ddewis defnyddio'r dyddiad ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am welliant, ar 31 Hydref bob blwyddyn neu cyn hynny, fel cyfle i gyhoeddi crynodeb o'u gweithgareddau cydweithio.

## Pennod 7 – Rhoi Cyfrif am Welliannau

7.1 Un o egwyddorion cyffredinol y Mesur yw bod yn rhaid i welliant fod yn seiliedig ar anghenion gwirioneddol ardal a'i dinasyddion. Mae angen cymhwyso'r egwyddor hon wrth roi cyfrif am weithgareddau gwella. Mae'r broses o roi cyfrif am welliannau sy'n ofynnol o dan adran 15 o'r Mesur yn rhannu'n ddau gam sydd yr un mor bwysig â'i gilydd sy'n gysylltiedig â'r cylch cynllunio ac adrodd.

### Cynlluniau a bwriadau

7.2 Dylai cam cyntaf y broses adrodd gyfeirio at gynlluniau ATA ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Yn y bôn, mae hynny'n golygu **cyhoeddi cynllun gwella** yn nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei **Amcanion Gwella**, fel a ganlyn:

- Datganiad cyffredinol yn amlinellu bwriadau'r ATA ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella a'i amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn;

- Esboniad o ran pam y dewiswyd ei amcanion gwella a'r canlyniadau y dylai cymunedau eu disgwyl os cyflawnir yr amcanion hynny;

- Datganiad ar y broses a ddilynwyd ar gyfer ymgynghori ar yr amcanion gwella ac unrhyw faterion yn deillio o'r ymgynghoriad;

- Disgrifiad o sut y mae'r ATA yn bwriadu cyflawni pob un o'r amcanion gwella y mae wedi pennu iddo'i hun;

- Y dystiolaeth (gan gynnwys dangosyddion perfformiad a thargedau, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny mewn unrhyw ffordd) y mae'r ATA wedi'i phennu iddo'i hun er mwyn monitro'r broses o gyflawni ei amcanion gwella (Gweler Pennod 5);

- Gwybodaeth am sut y gall cymunedau neu randdeiliaid gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn.

7.3 Mae adran 15(7) o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i amcanion gwella gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r amcanion yn berthnasol iddi, neu cyn gynted ag y bo'n bosibl ar ôl y dyddiad a ragnodir drwy Orchymyn gan Weinidogion Cymru. Mae Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012 (Rhif 1143 (Cy 137)) yn rhagnodi'r dyddiad hwn fel 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'r amcanion gwella yn berthnasol iddi. Y bwriad polisi yw y bydd ATAau yn cyhoeddi eu hamcanion gwella rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth bob blwyddyn.

### Adrodd ar Berfformiad yn y Gorffennol

7.4 Mae ail gam y broses o roi cyfrif am berfformiad yn codi pan fydd ATA mewn sefyllfa i allu roi cyfrif am weithgareddau gwella'r flwyddyn flaenorol (asesu perfformiad). Byddai hyn fel arfer yn digwydd ar ôl i'r wybodaeth am berfformiad alldro terfynol gael ei rhyddhau yn ystod ail neu drydydd chwarter y flwyddyn adrodd. Mae hyn yn cynnwys data wedi'u harchwilio o ddangosyddion perfformiad statudol, ond dylai gwmpasu'r holl ffynonellau gwybodaeth am berfformiad yr ymdrinnir â hwy ym Mhennod 5. Yn ystod y cam hwn, bydd ATA mewn sefyllfa i goladu gwybodaeth ôl-weithredol sy'n ymwneud â'i berfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol ac i'w dosbarthu i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd mewnol ac allanol a rhanddeiliaid.

7.5 Ceir hyblygrwydd o ran sut y mae ATAau yn dewis adrodd ar eu perfformiad ond er mwyn sicrhau cysondeb o ran prosesau adrodd ac atebolrwydd, argymhellir y dylai pob adroddiad gynnwys y canlynol:

- Tystiolaeth o'r prosesau y mae'r ATA wedi'u rhoi ar waith er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella fel y'i mynegwyd yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;

- Asesiad cryno o farn yr ATA o'i lwyddiant o ran cyflawni ei amcanion gwella fel y'u nodwyd yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;

- Datganiad o berfformiad fel y'i mesurwyd yn ôl yr holl ddangosyddion perfformiad statudol, p'un a ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r amcanion gwella ai peidio;

- Manylion am wybodaeth arall am berfformiad a'r defnydd ohoni, gan gynnwys canlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid, unrhyw asesiadau a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub a ffynonellau eraill o wybodaeth ansoddol, gan gynnwys data meincnodi;

- Asesiad o berfformiad o'i gymharu â pherfformiad yr ATA yn ystod blynyddoedd blaenorol ac â pherfformiad cyrff cymaradwy eraill (gan gynnwys ATAau eraill) cyhyd ag y bo hyn yn rhesymol ymarferol;

- Manylion am y ffordd y mae'r ATA wedi arfer ei bwerau cydweithio yn ystod y flwyddyn adrodd gan gynnwys manylion o ran p'un a yw gweithgaredd cydweithio wedi cyflawni ei ganlyniadau bwriadedig;

- Unrhyw ddatganiadau o weithgaredd y mae'r ATA wedi'u cyhoeddi o ganlyniad i unrhyw adroddiadau a gyhoeddwyd o dan adran 19 o'r Mesur gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r ATA hwnnw yn ystod y flwyddyn adrodd honno.

**Cyhoeddi**

7.6 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am berfformiad yn y gorffennol gael ei chyhoeddi cyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi.

7.7 Nid yw'r Mesur na'r Canllawiau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyhoeddi gwybodaeth mewn ffordd benodol neu mewn fformat penodol. Y ddyletswydd yw cyhoeddi'r holl wybodaeth a nodir mewn ffordd sy'n golygu y gellir cael gafael arni'n hawdd (a fyddai fel arfer yn cynnwys cyhoeddiadau copi caled ac electronig). Wrth sicrhau bod y wybodaeth ar gael, dylai ATAau ystyried amrywiol anghenion gwahanol gynulleidfaoedd e.e. Dinasyddion, sefydliadau partner, pwyllgorau craffu ac ati.

7.8 Dylai ATAau gydymffurfio â thelerau eu cynlluniau iaith Gymraeg cymeradwy wrth gyhoeddi gwybodaeth am welliant. Fodd bynnag, argymhellir y dylent gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Ymgysylltu'n ehangach â'r cyhoedd**

7.9 Er y bydd yr ystod lawn o wybodaeth fanwl o ddiddordeb mawr i'r ATAau a'u partneriaid, mae'n annhebygol y bydd llawer o bobl eraill am ei darllen o fewn y cymunedau y mae ATA penodol yn eu gwasanaethu. Felly argymhellir y dylai ATAau gyhoeddi fersiwn gryno o'u cynllun gwella a'u gwybodaeth am berfformiad er mwyn ymgysylltu'n ehangach â chymunedau.

7.10 Gall pob ATA benderfynu ar gynnwys unrhyw grynodeb, ond dylai fod yn deg ac yn gytbwys, a dylai ddarparu'r canlynol:

- trosolwg o flaenoriaethau ac amcanion gwella'r ATA;

- crynodeb o'r graddau y cyflawnwyd yr amcanion gwella yn ystod y flwyddyn flaenorol ac asesiad o b'un a ydynt wedi gwella canlyniadau i ddinasyddion;

- crynodeb o'r amcanion gwella arfaethedig neu'r amcanion gwella yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn gyfredol;

- crynodeb o'r amcanion gwella arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ganlynol;

- manylion sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth (er enghraifft, copïau o'r cynllun llawn), sut i ddarparu unrhyw sylwadau ar berfformiad yr ATA, a sut i ddylanwadu ar y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau ATA yn fwy cyffredinol.

7.11 Dylid cyhoeddi unrhyw grynodeb ar ffurf copi caled ac ar y Rhyngrwyd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn amodol ar delerau cynllun iaith Gymraeg pob ATA. Gall ATAau hefyd ystyried sicrhau bod y crynodeb ar gael mewn ieithoedd eraill, a siaredir yn gyffredin yn eu hardaloedd, ac mewn fformatau megis Braille, print bras a thâp sain, sy'n hygyrch i'r rhai ag anableddau synhwyraidd. Atgoffir ATAau o'u dyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

7.12 Dylai ATAau sicrhau bod y dinasyddion a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn ymwybodol o fodolaeth y cynllun a'r crynodeb, a bod digon o gyfleoedd iddynt gael gafael ar gopïau ohonynt. Dylai ATAau hefyd fwrw ati i gael adborth a sylwadau ar y cynigion a gynhwysir yn y cynllun a'r crynodeb.

Mae’r camau y gallai ATA eu hystyried yn cynnwys rhoi cyhoeddusrwydd iddynt mewn cylchlythyr, rhoi copïau mewn llyfrgelloedd lleol, sicrhau bod copïau ar gael mewn gorsafoedd tân y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt, ac anfon copïau i sefydliadau partner a grwpiau cymunedol.

**Hyblygrwydd**

7.13 Gall ATAau wneud y canlynol:

- cyhoeddi cynlluniau gwella sy’n cwmpasu cyfnod hwy na blwyddyn, ar yr amod y caiff y cynlluniau eu diweddaru bob blwyddyn;
- defnyddio unrhyw deitl neu frand, ar yr amod bod y testun yn egluro ei fod yn cyflawni’r ddyletswydd statudol berthnasol;
- cynnwys crynodeb cyhoeddus mewn unrhyw gyhoeddiad arall, megis cylchlythyr a gyhoeddwyd gan ATA.

## Pennod 8 – Archwilio, Rheoleiddio ac Arolygu

8.1 Mae'r bennod hon yn rhoi disgrifiad cyffredinol o waith SAC a rheoleiddwyr perthnasol mewn perthynas â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (y Rhaglen). Gan nad oes gan Weinidogion Cymru bwerau i gyhoeddi canllawiau i ATAau ar y Rhaglen o dan y Mesur, nid oes i'r bennod hon unrhyw rym statudol. Rydym wedi ei chynnwys er mwyn disgrifio gwaith SAC a rheoleiddwyr perthnasol mewn cyd-destun ehangach. Mae'n seiliedig ar eu harferion gwaith ac mae'n defnyddio termau (er enghraifft, teitlau asesiadau) nas defnyddir yn y Mesur ond y mae SAC ac eraill yn eu defnyddio wrth gynnal eu harolygiadau. Fodd bynnag, rydym wedi nodi darpariaethau'r Mesur y maent yn berthnasol iddynt.

8.2 Mae SAC yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Mae'r swyddogaethau cyfreithiol sy'n sail i waith SAC yn rhai penodol yr Archwilydd Cyffredinol, ond cyfeiriwn yma at SAC oni fydd y cyd-destun yn gofyn fel arall. Ar gyfer ATAau, nodir y term "rheoleiddwyr perthnasol" yn adran 16(2) o'r Mesur ac, at ddibenion y canllawiau hyn, mae'n golygu'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae "rheoleiddwyr perthnasol" eraill yng nghyd-destun Llywodraeth Leol, sy'n gyfrifol am arolygu darpariaeth addysg a gwasanaethau cymdeithasol, ond nid oes ganddynt rôl arferol mewn perthynas ag ATAau. Defnyddir y term "rheoleiddwyr perthnasol" yma mewn perthynas â'u "swyddogaethau perthnasol" yn unig, a nodir yn adran 16 o'r Mesur.

8.3 Mae SAC a rheoleiddwyr perthnasol yn gweithio er budd aelodau'r cyhoedd gan eu bod yn cyflwyno adroddiadau ar wasanaethau er mwyn rhoi sicrwydd a gwella atebolrwydd, hyrwyddo gwelliant a llywio polisïau'r llywodraeth er mwyn helpu i ddatblygu gwasanaethau gwell. Mae eu gwaith hefyd yn helpu i sicrhau'r tryloywder sy'n arwain at well penderfyniadau a gwell canlyniadau.

8.4 Mae'r cyfrifoldeb pennaf dros wasanaethau ar y rhai sy'n eu darparu gan weithio o fewn polisïau a fframweithiau perfformiad a bennir gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, wrth roi sicrwydd a chymorth annibynnol i wella, mae'r Rhaglen yn ystyried y ffaith mai darparwyr gwasanaethau sy'n bennaf gyfrifol am asesu'r broses o ddarparu gwasanaethau. Wrth ymgymryd â'u gwaith, caiff SAC a rheoleiddwyr perthnasol eraill, heb effeithio ar eu swyddogaethau statudol, eu tywys gan yr egwyddorion a nodir yn Natganiad Polisi Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru Llywodraeth Cymru[2].

### Amlinelliad o waith SAC a rheoleiddwyr perthnasol

[2] Datganiad Polisi ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru - lansiwyd 30 Medi 2009.

8.5 Y prif ddarn o waith i SAC o dan y Rhaglen yw **Asesiad Gwella** blynyddol (a gynhelir o dan adran 18 o'r Mesur) er mwyn penderfynu p'un a yw pob ATA yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd SAC hefyd yn cynnal **archwiliad o wybodaeth am welliant a chynllunio**, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn canfod p'un a yw'r ATA wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15 (1) i (7).

8.6 Er mwyn cyflawni'r gofynion hyn, bydd SAC yn ymgymryd â'r canlynol:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd ATA yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;

- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i nodi a yw ATA wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo, er mwyn llywio barn ar hanes yr ATA o ran sicrhau gwelliant.

8.7 O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal **Arolygiadau Arbennig** (o dan adran 21). Yn dilyn Arolygiad Arbennig, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiad i'r ATA perthnasol ac i Weinidogion Cymru. Gellir cyhoeddi'r adroddiad hefyd (o dan adran 22).

8.8 Un o weithgareddau atodol pwysig SAC yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn perthynas ag awdurdod gwella.

8.9 Mae hyn yn cynnwys gwaith y Prif Gynghorydd Tân ac Achub fel Arolygydd o dan adran 28 o Ddeddf 2004. Yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb penodol am werthuso i ba raddau y mae ATAau wedi cydymffurfio â'r Fframwaith Cenedlaethol, ac yn debygol o barhau i wneud hynny. Mae'r gwaith hwn a gwaith SAC yn ategu ei gilydd i raddau helaeth ac mae angen eu cydgysylltu'n unol â hynny. Sefydlwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng SAC a'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn nodi fframwaith ar gyfer cydweithio sy'n anelu at sicrhau bod cymaint o sgiliau a phrofiad â phosibl yn rhan o'r broses archwilio ac arolygu, gan osgoi achosion o ddyblygu ymdrech a lleihau'r baich craffu ac asesu.

8.10 Disgrifir y gwaith hwn yn fanylach isod. Yn ogystal, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi datganiad o arfer (nid yw'r bennod hon yn disodli'r datganiad hwnnw nac yn rhan ohono) yn disgrifio'r ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu arfer swyddogaethau allweddol mewn perthynas â'r Mesur. Mae'r egwyddorion sylfaenol fel a ganlyn:

- caiff swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu harfer yn gyson rhwng awdurdodau;

- dylai archwilwyr penodedig gyflawni eu swyddogaethau'n annibynnol;

- caiff swyddogaethau eu harfer yn gymesur ac nid ydynt yn rhoi baich afresymol ar awdurdodau gwella yng Nghymru;

- caiff swyddogaethau eu harfer gyda'r bwriad o helpu awdurdodau gwella i gydymffurfio â Rhan 1 o'r Mesur.

8.11 Mae datganiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi sut y bydd SAC, yn unol â'r egwyddorion hyn, yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr perthnasol i sicrhau gwaith effeithiol wrth gynllunio gweithgareddau a chydweithio ac i sicrhau y caiff swyddogaethau eu harfer mewn ffordd gymesur a chyson.

8.12 Dylid cofio bod gan yr Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr perthnasol hefyd swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth arall nad yw'n gysylltiedig â'r Mesur. Yn arbennig, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswyddau a phwerau o dan Ddeddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013 i gynnal astudiaethau o awdurdodau, megis astudiaethau i wella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau. Yn yr un modd, mae gan archwilwyr a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswyddau i archwilio cyfrifon ATAau. Er bod y swyddogaethau hyn yn annibynnol ar y Mesur, mae gan SAC gyfrifoldeb o dan y Mesur i weithio gyda'r rheoleiddwyr perthnasol i gydgysylltu gweithgarwch o'r fath a'i ddefnyddio i lywio gwaith o dan y Mesur.

**Asesu Gwelliannau**

8.13 Bydd yr Asesiad o Welliant (adran 18) yn cynnwys Asesiad Corfforaethol sy'n edrych i'r dyfodol ac Asesiad o Berfformiad ôl-weithredol er mwyn llywio barn ar hanes yr ATA o ran sicrhau gwelliant. Caiff y ddau asesiad eu llywio gan yr archwiliad o wybodaeth am welliant a chynllunio (adran 17). Er bod adrannau 17 ac 18 yn swyddogaethau cyfreithiol ar wahân ac y cânt eu disgrifio yma fel elfennau ar wahân, maent yn gysylltiedig a chânt eu defnyddio gyda'i gilydd i lywio asesiad SAC o bob ATA.

8.14 Mae SAC yn gweithio drwy gydol y flwyddyn i lywio'r asesiad corfforaethol a'r asesiad o berfformiad ac yn cyflwyno adroddiad ar ei chanfyddiadau i'r ATA. Bydd yn cynnal adolygiadau i'r gwasanaeth cyfan o drefniadau llywodraethu a rheoli perthnasol, wedi'u hategu lle y bo angen gan adolygiadau o swyddogaethau a gweithgareddau penodol. Lle y bo'n briodol, fel rhan o'r asesiad, caiff gwybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ei chasglu a'i hadolygu, yn ogystal â gwybodaeth gan yr ATA ei hun. Caiff hefyd ei lywio gan y gwaith a rennir gan reoleiddwyr perthnasol; gan gynnwys gwaith archwilio a wnaed mewn perthynas â chyfrifon yr ATA. Mae'r Mesur yn darparu system benodol ar gyfer rhannu gwybodaeth (adran 33) at y diben hwn ac felly mae'n ofynnol i bob rheoleiddiwr perthnasol gyfrannu at Asesiad o Welliant ac Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol.

**Asesiad Corfforaethol gan Edrych i'r Dyfodol**

8.15 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, bydd SAC yn asesu pob ATA o ran p'un a yw'n debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur. Bydd SAC yn ystyried,

ymhlith pethau eraill, gynllun gwella cyhoeddedig yr ATA (adran 15(6)) a fydd yn cynnwys ei amcanion gwella a'i gynlluniau ar gyfer eu cyflawni yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd SAC yn ystyried hanes yr ATA o sicrhau gwelliant a ph'un a yw ei drefniadau llywodraethu a rheoli yn ategu gwelliant yn effeithiol. Bydd SAC yn ystyried gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill wrth gynnal ei hasesiad.

8.16 Rhan gyntaf yr archwiliad o wybodaeth am welliant a chynllunio (adran 17) fydd archwiliad SAC o'r ffordd y mae'r ATA wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) a (7) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gyhoeddi cynllun gwella. Bydd yr archwiliad hwn yn llywio'r asesiad corfforaethol.

8.17 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Adroddiad ar yr Asesiad Corfforaethol (adran 19) i bob ATA. Mae Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn debygol o gael ei gyhoeddi yn ystod mis Ebrill bob blwyddyn. Bydd yr Adroddiad yn nodi p'un a yw'r ATA yn debygol o gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a gall hefyd gyflwyno sylwadau o ran p'un a yw'r ATA yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol yn ystod blynyddoedd dilynol.

**Asesiad o Berfformiad Ol-weithredol**

8.18 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, bydd SAC yn cynnal Asesiad o Berfformiad gyda'r prif ddiben o olrhain gwelliant dros amser. Fel rhan o'i harchwiliad o wybodaeth am welliant a chynllunio, bydd SAC yn ystyried, ymhlith pethau eraill, asesiad cyhoeddedig yr ATA ei hun o berfformiad (adran 15(2)), ynghyd â chanfyddiadau unrhyw waith a wnaed gan SAC a rheoleiddwyr perthnasol eraill i asesu perfformiad gwasanaethau. Fel gyda'r Asesiad Corfforaethol sy'n edrych i'r dyfodol, bydd y gwaith hwn, lle y bo'n briodol, yn casglu ac yn adolygu gwybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Unwaith eto, caiff gwaith SAC ei lywio gan y gwaith a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33 o'r Mesur), gan gynnwys gwaith archwilio a wnaed mewn perthynas â chyfrifon yr ATA.

8.19 Ail ran yr archwiliad o wybodaeth am welliant a chynllunio (adran 17) fydd asesiad o'r ffordd y mae'r ATA wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gynnal asesiad o'i berfformiad o dan adran 15(1) i (5). Bydd hyn yn llywio asesiad o berfformiad SAC a fydd yn cynnwys adolygiad o'r canlynol:

- lefel gyffredinol y gwelliant a wnaed;
- unrhyw gynnydd a wnaed tuag at gyflawni amcanion gwella;
- p'un a gynhwyswyd dangosyddion perfformiad (lleol a chenedlaethol);
- p'un a gyflawnwyd safonau perfformiad penodedig Llywodraeth Cymru a safonau perfformiad a bennwyd gan yr ATA ei hun;

- perfformiad dros amser ac o gymharu ag ATAau eraill (a llywodraeth leol lle y bo’n briodol mewn perthynas â gweithgareddau corfforaethol);

- gweithgareddau cydweithredol;

- trefniadau ar gyfer casglu a defnyddio data ynghyd â digonolrwydd cyffredinol gwybodaeth am berfformiad.

8.20 Cyflwynir adroddiad ar yr asesiad o berfformiad yn Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol (gweler paragraff 8.24).

**Arolygiadau Arbennig**

8.21 Os yw’r Archwilydd Cyffredinol o’r farn bod ATA yn annhebygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur, neu os bydd rheoleiddiwr perthnasol yn rhoi gwybod i’r Archwilydd Cyffredinol ei fod o’r farn honno, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal Arolygiad Arbennig o’r ATA. Gall arolygiadau o’r fath fod yn gysylltiedig â rhai o swyddogaethau ATA neu bob un o’i swyddogaethau. Cyn penderfynu p’un a ddylid cynnal Arolygiad Arbennig, rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Lle bydd yr Archwilydd Cyffredinol wedi datgan mewn adroddiad asesu fod arolygiad yn debygol, rhaid ystyried unrhyw ymateb a geir gan yr ATA dan sylw.

8.22 Lle bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal Arolygiad Arbennig, rhaid cyhoeddi adroddiad i’r ATA a Gweinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad yn nodi unrhyw faterion y mae’r ATA yn methu neu y gall fethu â chydymffurfio â’r Mesur mewn perthynas â hwy. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd argymell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i’r ATA neu roi cyfarwyddiadau iddo.

8.23 Gall rheoleiddwyr perthnasol hefyd, y tu allan i’r swyddogaeth Arolygiadau Arbennig, gymryd eu camau eu hunain, wedi’u cydgysylltu â SAC a rheoleiddwyr perthnasol eraill fel y bo’n briodol.

**Adroddiadau Gwella Blynyddol Cyhoeddedig**

8.24 Erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol mewn perthynas â phob ATA. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn:

- crynhoi adroddiad yr Asesiad Corfforaethol (gan gynnwys sylwebaeth ar yr amcanion gwella diweddaraf a bennwyd);

- cyflwyno adroddiad ar waith asesu perfformiad SAC;

- cyflwyno adroddiad ar yr archwiliad o wybodaeth am welliant a chynllunio;

- crynhoi neu’n atgynhyrchu unrhyw adroddiadau ar Arolygiadau Arbennig y gellid bod wedi’u cynnal;

- crynhoi neu'n atgynhyrchu unrhyw adroddiadau a gyflwynwyd gan reoleiddwyr perthnasol.

8.25 Bydd SAC yn gwneud trefniadau'n lleol gydag ATAau i gynnig cyfleoedd i gyfleu canfyddiadau asesiadau a chynnwys adroddiadau a'u trafod fel rhan o'r broses o'u cymeradwyo.

8.26 Bydd Adroddiadau Gwella Blynyddol ar gael ar y rhyngrwyd a dylid eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn hygyrch ac yn ystyrlon i aelodau o'r cyhoedd.

**Cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio**

8.27 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol lunio amserlen ar gyfer pob ATA yn nodi'r dyddiadau a'r amseroedd pan ddylai SAC a'r rheoleiddwyr perthnasol ymgymryd â'u gwaith mewn perthynas â'r ATA. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â'r rheoleiddwyr perthnasol cyn pennu'r amserlen. Wrth lunio'r amserlen, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio ag egwyddorion y Datganiad o Arfer. Er enghraifft, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr perthnasol i sicrhau y caiff swyddogaethau perthnasol eu cydgysylltu er mwyn sicrhau y cânt eu harfer, gyda'i gilydd, mewn modd cymesur. Bydd rhywfaint o'r gweithgaredd rheoleiddio ac arolygu yn llifo'n uniongyrchol o asesiadau o welliant ac archwiliadau SAC. Yn yr un modd, bydd rhywfaint o'r gweithgaredd yn llifo o weithgaredd rheoleiddio ac arolygu rheoleiddwyr perthnasol eraill.

8.28 Bydd yr amserlen reoliadol yn ystyried yr holl weithgareddau rheoleiddio ac arolygu, ac yn anelu at bennu rhaglen o weithgareddau sy'n diwallu anghenion yr ATA, SAC a rheoleiddwyr perthnasol eraill er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a llywio gwelliannau i wasanaethau. Y bwriad yw llunio rhaglen gydlynus ac effeithlon o weithgareddau sy'n cyflawni gofynion swyddogaethau SAC a'r rheoleiddwyr perthnasol. Unwaith y bydd wedi'i phennu, rhaid i SAC a'r rheoleiddwyr perthnasol gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r amserlen. Yn amlwg mae gallu SAC a'r rheoleiddwyr perthnasol i gydymffurfio â'r amserlen o fudd i'r ATAau. Felly mae'n bwysig bod yr ATAau yn rhoi unrhyw gymorth y gofynnir amdano fel rhan o'r broses.

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Deddf 2004 | - Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 |
| Deddf 2015 | - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| ATAau | - Awdurdodau Tân ac Achub |
| Fframwaith Cenedlaethol | - Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) fersiwn bresennol a fersiynau yn y dyfodol http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/strategy/?lang=cy |
| DP | - Dangosydd Perfformiad |
| Blwyddyn adrodd | - cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dirwyn i ben ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol |
| Y Mesur | - Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| Y Rhaglen | - Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella |
| SAC | - Swyddfa Archwilio Cymru |